Swydd Ddisgrifiad

Prifysgol Wrecsam
Wrexham University

Cyfadran/Adran	Cyfadran y Celfyddydau, Cyfrifiadura a Pheirianneg
Adran	Peirianneg
Teitl y Swydd	Darlithydd Peirianneg Reolaeth
Yn atebol i	Y Prif Ddarlithydd Peirianneg
Yn gyfrifol am	Peirianneg
Gradd	Darlithydd

Trosolwg o'r Swydd

Bydd deiliad y swydd yn addysgu ar raglenni Prifysgol Wrecsam, yn cyflawni gwaith ymchwil a gweithgarwch ysgolheigaidd, ac yn cyfrannu at reoli'r rhaglenni hyn yn ôl yr angen.

Cyfrannu at weithgareddau masnachol a gweithgareddau cynhyrchu incwm eraill, pan fo hynny'n briodol.

Cyfrannu at y gwaith o sicrhau bod ansawdd a safonau academaidd y brifysgol yn cael eu cynnal a bod profiad myfyrwyr yn cael ei wella'n barhaus.

Diben y Swydd

Mae rôl Darlithydd Peirianneg Reolaeth yn cynnwys darparu addysgu, ymchwil ac arweinyddiaeth academaidd o safon uchel mewn Peirianneg Reolaeth, gyda ffocws ar Gyfathrebu mewn Diwydiant, Systemau Awtomatiaeth a PLC, Systemau Mecatroneg, Systemau wedi'u Mewnosod, a Phrosesu Signalau Digidol. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn chwarae rhan flaenllaw yn datblygu portffolio academaidd yr adran, gan gynnwys cyfrannu at ddarparu Addysg Drawswladol (TNE), lle mae teithio'n rhyngwladol yn angenrheidiol.

Byddwch hefyd yn meddu ar wybodaeth a galluoedd eang yn ymwneud â pheirianneg ac yn cymryd rhan lawn wrth ddatblygu a chyflwyno darpariaeth academaidd yn y dyfodol o ran twf cynaliadwy o fewn y maes pwnc ac yng nghyd-destun ehangach y Gyfadran, gan gynnwys ysgolion haf, darpariaeth ryngwladol a darpariaeth ar-lein.

Byddwch yn ymwneud yn weithredol â gweithgareddau ymchwil ac yn ymchwilio i gydweithio gyda sefydliadau partner ar waith ymchwil. Byddwch yn cyfrannu at broffil ymchwil y maes pwnc Peirianneg drwy adnabod, olrhain a chwblhau gweithgarwch ymchwil a ystyrir yn briodol i dargedu amcanion ymchwil y Gyfadran ehangach a'r Brifysgol.

Byddwch yn ymwneud yn weithredol â gweithgareddau recriwtio ac allgymorth i ddenu myfyrwyr o ansawdd i ddilyn rhaglenni peirianneg.

Disgwylir i'r ymgeisydd llwyddiannus feddu ar sgiliau cyfathrebu rhagorol a'r gallu i gyfleu gwybodaeth mewn ffordd ddealladwy a diddorol.

Prif Atebolrwydd

Cymorth Addysgu a Dysgu
- Datblygu a chyflwyno adnoddau a deunyddiau addysgu i ddiwallu manyleb y rhaglen.
- Datblygu asesiadau i fesur perfformiad a dealltwriaeth myfyrwyr yn fanwl gywir.
- Goruchwylio gwaith myfyrwyr ôl-raddedig a addysgir a/neu fyfyrwyr ymchwil, yn ôl y gofyn, i helpu i ddatblygu sgiliau ymchwil myfyrwyr.
- Gosod, marcio, ac asesu gwaith myfyrwyr yn ffurfiannol ac yn grynodol, gan sicrhau bod y deilliannau dysgu wedi'u cyflawni a bod yr adborth yn fanwl ac yn adeiladol.
- Cyfrannu'n weithredol at wella profiad y myfyriwr.

Gweithgareddau Ymchwil
- Ymgymryd ag ymchwil ac/neu weithgarwch ysgolheigaidd cytunedig arall er mwyn cyfrannu at ddatblygiad y maes (fel disgyblaeth academaidd).
- Paratoi cynigion a cheisiadau i gyrff allanol, yn ôl yr angen, i sicrhau cyllid ymchwil ac i gynhyrchu incwm ychwanegol i'r Brifysgol. Ysgrifennu a chyhoeddi canlyniadau ymchwil arloesol yn y maes er mwyn hybu safle'r Brifysgol yn y sector Addysg Uwch a'r gymuned ehangach.
- Dadansoddi data a gwerthuso gwybodaeth y gellir eu defnyddio wedyn fel sail i addysgu a dysgu.
- Datblygu amcanion ymchwil a chynigion ar gyfer eich ymchwil eich hun ac/neu ymchwil ar y cyd sy'n bodloni meini prawf cyllido.
- Defnyddio blaengarwch, creadigrwydd a barn i ddatblygu methodolegau ymchwil priodol sy'n hybu gweithgarwch ysgolheigaidd yn y maes.

Menter Academaidd
- Cymryd rhan yn natblygiad partneriaethau mewnol ac allanol er mwyn rhannu gwybodaeth, rhannu arferion gorau, sefydlu cyfleoedd am waith ar y cyd a gwella enw da y Brifysgol.
- Cymryd rhan mewn rhwydweithiau ffurfiol i feithrin cysylltiadau newydd a fydd yn fuddiol i'r adran a'r Gyfadran yn gyffredinol.

Darparu Gwasanaeth
- Dylunio, adolygu ac addasu cynnwys modiwlau ac unedau mewn ymateb i adborth ac anghenion myfyrwyr, gyda'r bwriad o wella cyfraddau cadw myfyrwyr.
- Dilyn gweithdrefnau sicrhau ansawdd i sicrhau bod safonau'r Brifysgol yn cael eu cynnal.
- Cydweithio â chydweithwyr academaidd ar ddatblygu a chyflwyno pynciau/rhaglenni yn yr adran, yn y Gyfadran ac ar draws y Brifysgol (pan fo'n briodol) er mwyn sicrhau bod portffolio'r cwricwlwm yn parhau'n gyfredol a bod y gweithdrefnau asesu yn berthnasol.
- Cydlynu digwyddiadau myfyrwyr, yn ôl yr angen, gan sicrhau y defnyddir amser ac adnoddau'n effeithiol.
- Cynorthwyo mewn gweithgareddau priodol cyn-mynediad, recriwtio, dethol a derbyn (gan gynnwys Diwrnodau Agored a Diwrnodau Ymweld) er mwyn hyrwyddo'r adran a chael gwell dealltwriaeth o anghenion/disgwyliadau myfyrwyr.

- Darparu pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer materion yn ymwneud â lles myfyrwyr, gan gyfeirio problemau pan fyddant yn gymhleth neu'n ddifrifol.

Gwaith Tîm
- Mynd i gyfarfodydd/byrddau'r Gyfadran, yr Adran a'r Rhaglenni, yn ôl yr angen, er mwyn cyfrannu at y broses o wneud penderfyniadau a datblygu cysylltiadau gweithio cynhyrchiol o fewn timau ac ar eu traws.
- Cyflwyno aelodau newydd i'r adran drwy ddarparu cymorth a hyfforddiant mewn perthynas â'r sgiliau, y prosesau, y systemau a'r gweithgareddau sy'n benodol i'r adran.
- Darparu adborth i gydweithwyr drwy gynlluniau mentora cyfoedion i gefnogi eich datblygiad eich hun a datblygiad eraill, ac i sicrhau gwelliant parhaus ym mherfformiad yr adran.

Cysylltu a Rhwydweithio
- Ymgysylltu'n weithredol â chyrff proffesiynol a dysgedig e.e. cymryd rhan mewn pwyllgorau, gweithgorau, trefnu cynadleddau/gweithdai.

Atebolrwydd Personol

- Cymryd cyfrifoldeb am hyrwyddo gwasanaeth cwsmer o safon yn eich meysydd gwaith eich hun.
- Cymryd cyfrifoldeb am gyfrannu at ymrwymiad y Brifysgol i ddarparu gwasanaethau sy'n rhoi gwerth am arian ac sy'n gwneud y defnydd gorau o adnoddau, gan ystyried hyn wrth gyflawni pob dyletswydd ac agwedd ar y swydd.
- Cymryd cyfrifoldeb am sicrhau eu bod yn parhau i ddiweddaru eu gwybodaeth a'u sgiliau i fod yn effeithiol yn eu swydd.
- Cymryd rhan yn y broses Adolygu Datblygiad Perfformiad, cyfrannu yn y broses o osod amcanion er mwyn cynorthwyo gyda monitro perfformiad a datblygiad yr unigolyn.
- Dilyn proses y Model Dyrannu Llwyth Gwaith a chymryd rhan ynddi er mwyn cynorthwyo i ddyrannu dyletswyddau unigolion.
- Cymryd cyfrifoldeb am weithredu Polisi Cyfle Cyfartal y Brifysgol o fewn eich maes cyfrifoldeb ac o ran eich ymddygiad cyffredinol.
- Ymgymryd â rôl Iechyd a Diogelwch benodol, sy'n gymesur â'ch gradd, i gefnogi'r Brifysgol i fodloni ei rhwymedigaethau Iechyd a Diogelwch statudol. Gallai hyn gynnwys gweithredu fel Asesydd Offer Sgrin Arddangos, Swyddog Cymorth Cyntaf, Marsial Tân neu Gydlynydd Diogelwch yr Adran. Bydd neilltuo rolau o'r fath yn amodol ar ddarparu hyfforddiant priodol ac asesiad cymhwysedd.
- Gall fod yn ofynnol gweithio ar unrhyw un o safleoedd y Brifysgol, gyda rhybudd rhesymol.
- Cymryd cyfrifoldeb am gyfrannu at ymrwymiad y Brifysgol i Gynaliadwyedd Amgylcheddol er mwyn lleihau ei gwastraff, ei defnydd o ynni a'i hôl troed carbon.
- Ymgymryd â dyletswyddau perthnasol eraill sy'n gymesur â gradd y swydd y gallai'r Rheolwr neu reolwyr y Brifysgol eu neilltuo er mwyn cefnogi datblygiad y Brifysgol. Ni ddylid gwrthod cytundeb o'r fath yn afresymol.
- Rhaid i staff fod yn ymwybodol o ymrwymiad y Brifysgol i Gynaliadwyedd.
- Rhaid i bob aelod o staff hyrwyddo ymddygiad iach ac iechyd meddwl a llesiant cadarnhaol.

Amrywiol

Mae'r Brifysgol yn un o lofnodwyr y Concordat Datblygu Ymchwilwyr a'r Concordat Uniondeb Ymchwil. Mae disgwyl i ddeiliad y swydd lynu wrth ofynion y ddarpariaeth hon.

Adolygu

Mae hwn yn ddisgrifiad o'r swydd adeg ei chyhoeddi. Arfer y Brifysgol o bryd i'w gilydd yw adolygu a diweddaru swydd ddisgrifiadau er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu natur gyfredol y swydd a gofynion y Brifysgol yn gywir ac i ymgorffori newidiadau rhesymol pan fo angen, mewn ymgynghoriad â deiliad y swydd.

Manyleb Person

Prifysgol Wrecsam
Wrexham University

Teitl y Swydd: | Darlithydd Peirianneg Reolaeth

Er mwyn cael eich rhoi ar y rhestr fer, mae'n rhaid i chi ddangos eich bod yn diwallu pob un o'r meini prawf hanfodol a hynny o'r meini prawf dymunol ag sy'n bosibl. Pan fydd gennym nifer fawr o geisiadau sy'n diwallu'r holl feini prawf hanfodol, byddwn wedyn yn llunio'r rhestr fer gan ddefnyddio'r meini prawf dymunol.

Meini Prawf Dethol

	Priodoleddau	Eitem	Meini Prawf Perthnasol	Dull Adnabod	Pwysigrwydd
1	Sgiliau a Galluoedd	1.1	Lefel uchel o sgiliau ysgrifenedig, llafar a rhyngbersonol.	Ff, C	H
		1.2	Y gallu i addysgu ar draws y maes pwnc a chyfrannu at addysgu ar draws y Gyfadran.	Ff, Rh, C	H
		1.3	Tystiolaeth o wneud cyfraniad mewn tîm ymchwil a'r gallu i gydweithio ar wahanol lefelau ar draws sefydliad.	Ff, C	H
2	Gwybodaeth Gyffredinol ac Arbenigol	2.1	Dealltwriaeth am fecanweithiau a phrosesau ariannu ymchwil ac arddangos tystiolaeth o ddatblygu amcanion a chynigion ymchwil ar gyfer eich ymchwil eich hun neu ymchwil ar y cyd (efallai gyda chymorth mentor).	Ff, Rh, C	H
		2.2	Tystiolaeth o waith ymchwil ar gyfer cyhoeddiadau a fydd yn cyfrannu at y maes pwnc neu'n arddangos y potensial i gyflawni'r safon hon o ymchwil.	Ff, Rh, C	H
3	Addysg a Hyfforddiant	3.1	Ddoethuriaeth y gweithiwyd tuag ato mewn maes pwnc perthnasol (neu'n gweithio tuag at hynny).	Ff, C, T	H
		3.2	Tystysgrif ôl-radd Addysgu mewn AU, neu ymrwymiad i weithio tuag at ddod yn gymrawd o'r Sefydliad Addysg Uwch.	Ff, C, T	H
		3.3	Gradd Meistr mewn disgyblaeth briodol neu ymrwymiad i weithio tuag at hynny.	Ff, C	H
		3.4	Aelod o gorff proffesiynol neu gorff dysgedig perthnasol.	Ff, C	H

4	Profiad Perthnasol	4.1	Profiad blaenorol o addysgu neu gefnogi myfyrwyr.	Ff, C	H
		4.2	Profiad ôl-ddoethurol perthnasol.	Ff, C	D
5	Gofynion Arbennig	5.1	Y gallu i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg.	Ff, C	D
		5.2	Tystiolaeth o ymrwymiad i ddatblygiad proffesiynol parhaus.	Ff, C	H
		5.3	Cofnod cyhoeddi sy'n gymesur â lefel dda o berfformiad ymchwil a'r cam rydych wedi'i gyrraedd yn eich gyrfa.	Ff, C	H
6	Ychwanegol/ Diwygiadau i'r Fanyleb Person	6.1	Profiad ymchwil a/neu ddiwydiannol yn y meysydd canlynol: Cyfathrebu mewn Diwydiant, Systemau Awtomatiaeth a PLC, Systemau Mecatroneg, Systemau wedi'u Mewnosod, a Phrosesu Signalau Digidol.	Ff, C	H
		6.2	Yn arddangos dealltwriaeth drylwyr ac eang o faterion pwnc Peirianneg Reolaeth ar lefelau cysyniadol ac ymarferol.	Ff, C	H
Dyddiad Adolygu					

Allwedd	**Dull Adnabod**	**Ff**	Ffurflen Gais
		C	Cyfweliad
		P	Prawf
		T	Copi o Dystysgrifau
		Gw/D	Gweithdy/Darlith
		Rh	Rhoi Cyflwyniad
		G	Asesiad Grŵp
	Pwysigrwydd	**H**	Hanfodol
		D	Dymunol

Job Description

- CORE VALUES -
ACCESSIBLE
CLICK TO VIEW

- CORE VALUES -
SUPPORTIVE
CLICK TO VIEW

- CORE VALUES -
INNOVATIVE
CLICK TO VIEW

- CORE VALUES -
AMBITIOUS
CLICK TO VIEW

Faculty/Department	Faculty of Arts, Computing and Engineering
Section	Engineering
Job Title	Lecturer in Control Engineering
Reports to	Principal Lecturer in Engineering
Responsible for	Engineering
Grade	Lecturer

Job Overview

The post holder will teach on Wrexham University programmes, carry out research and scholarly activity and contribute to the management of these programmes as required.

Where appropriate, contribute to commercial and other income generation activity.

Contribute towards ensuring that academic quality and standards of the university are maintained and the student experience is continually enhanced.

Job Purpose

The role of Lecturer in Control Engineering involves providing high-quality teaching, research, and academic leadership in Control Engineering with a focus on Industrial Communications, Automation and PLC Systems, Mechatronic Systems, Embedded Systems, and Digital Signal Processing. The successful candidate will play a key role in developing the academic portfolio of the department, including contributing to Transnational Education (TNE) delivery, which will require international travel.

You will also have broad ranging knowledge and abilities relating to engineering and contribute to the development and implementation of future academic provision towards sustainable growth within both the subject area and wider Faculty context, including summer schools, international and on-line provision.

You will actively engage in research activities and explore research collaboration with partner institutes. You will contribute to the research profile of the Engineering subject area through the identification, pursuit and completion of research activity deemed appropriate in targeting the research objectives of the wider Faculty and University.

You will actively contribute to recruitment and outreach activities to attract high-quality students into engineering programmes.

It is expected that the successful applicant will have excellent communication skills and have an aptitude to convey information in an understandable and interesting manner.

Principal Accountabilities

Teaching & Learning Support
- Develop and deliver resources and teaching materials to meet programme specification.
- Develop assessments to measure accurately students' performance and understanding.
- Supervise the work of taught postgraduate and/or research students, as required, to support the development of students' research skills.
- Set, mark, formatively and summatively and assess students' work, ensuring that learning outcomes have been met and that feedback is both detailed and constructive.
- Actively contribute to enhancing the student experience.

Research Activities
- Undertake research and/or other agreed scholarly activity in order to contribute to the development of the field (as an academic discipline).
- Prepare proposals and applications to external bodies, as required, to secure research funding and to generate additional income for the University. Write and publish results of innovative research in the field to further the University's standing in the HE sector and the wider community.
- Analyse data and evaluate information that can then be used to inform teaching and learning.
- Develop research objectives and proposals for own and/or joint research which meet funding criteria.
- Use initiative, creativity and judgement in the development of appropriate research methodologies that further scholarly activity in the area.

Academic Enterprise
- Participate in the development of internal and external partnerships in order to disseminate information, share best practice, establish opportunities for collaborative work and enhance the reputation of the University.
- Participate in formal networks to build new relationships that benefit both the department and the Faculty as a whole.

Service Provision
- Design, review and adapt module and unit content in response to student feedback and need, with a view to improving student retention.
- Engage with quality assurance procedures to ensure that University standards are met.
- Collaborate with academic colleagues on subject/programme development and delivery within the department, the Faculty and across the University (where appropriate) to ensure that the curriculum portfolio remains current and the assessment procedures are relevant.
- Co-ordinate student events, as required, ensuring the effective use of time and resources.
- Assist in appropriate pre-entry, recruitment, selection and admissions activities (including Open Days and Visit Days) in order to promote the department and gain a better understanding of student needs/expectations.
- Provide a first point of contact for student welfare issues, referring problems on where they are complex

or serious.

<u>Team Working</u>
- Attend Faculty, Department and Programme meetings/boards, as required, in order to contribute to the decision-making process and to develop productive working relationships within and across teams.
- Introduce new starters to the department by providing support and training on the skills, processes, systems and activities that are specific to the department.
- Provide feedback to colleagues via peer mentoring schemes to support the development of self and others and to ensure the continuous improvement of departmental performance.

<u>Liaising and Networking</u>
- Active engagement with professional and learned bodies e.g. participation in committees, working parties, conference/workshop organisation.

Personal Accountabilities

- Take responsibility to promote high levels of customer care within their own areas of work.
- Take responsibility to engage with the University's commitment to delivering value for money services that optimise the use of resources and consider this when undertaking all duties and aspects of their role.
- Take responsibility for ensuring they have and continue to update their knowledge and skills to be effective in their roles.
- Participate in the PDR process, engaging in the setting of objectives in order to assist in the monitoring of performance and the development of the individual.
- Engage and participate in the Workload Allocation Model process to support the allocation of duties of the individual.
- Take responsibility for applying the University's Equal Opportunities Policy in their own area of responsibility and in their general conduct.
- Be required to undertake a specific Health & Safety role, commensurate with their grade, to support the University in meeting its statutory Health & Safety obligations. This could include acting as a DSE Assessor, First Aider, Fire Marshall or Departmental Safety Co-ordinator. The allocation of such roles will be subject to the provision of appropriate training and assessment of competence.
- With reasonable notice, be required to work at any of the University sites.
- Take responsibility to engage with the University's commitment to Environmental Sustainability in order to reduce its waste, energy consumption and carbon footprint.
- Undertake other relevant duties commensurate with the grade of the post as may be assigned by the Manager or University managers to support the development of the University. Such agreement should not be unreasonably withheld.
- Staff must be aware of the University's commitment to Sustainability
- All staff must promote healthy behaviour and positive mental health and wellbeing

Miscellaneous

The University is a signatory to the Researcher Development Concordat and Research Integrity Concordat. The post holder is expected to adhere to the requirements of this provision.

Review

This is a description of the job at the time of issue. It is the University's practice periodically to review and update job descriptions to ensure that they accurately reflect the current nature of the job and requirements of the University and to incorporate reasonable changes where required, in consultation with the job holder.

Person Specification

Prifysgol **Wrecsam**
Wrexham University

Job Title: | Lecturer in Control Engineering

In order to be shortlisted you must demonstrate that you meet all the essential criteria and as many of the desirable criteria as possible. Where we have a large number of applications that meet all of the essential criteria, we will then use the desirable criteria to produce the shortlist.

Selection Criteria

	Attributes	Item	Relevant Criteria	Identification Method	Rank
1	Skills & Abilities	1.1	High level of written, oral and interpersonal skills.	A, I	E
		1.2	The ability to teach across the subject area and to contribute to teaching across the Faculty.	A, P, I	E
		1.3	Evidence of making a contribution in a research team and the ability to collaborate at different levels across an organisation.	A, I	E
2	General & Specialist Knowledge	2.1	An understanding of research funding mechanisms and processes and demonstrate evidence of developing research objectives and proposals for own or joint research (maybe with the assistance of a mentor).	A, P, I	E
		2.2	Evidence of research work for publications which will contribute to the subject area or demonstrate the potential to achieve this standard of research.	A, P, I	E
3	Education & Training	3.1	An earned doctorate (or working towards) in a relevant subject discipline.	A, I, C	E
		3.2	PG certificate in Teaching in HE, or commitment to undertake and achieve fellowship of HEA.	A, I, C	E
		3.3	Master's Degree in an appropriate discipline or commitment to working to achieve this.	A, I	E
		3.4	Member of relevant professional or learned body.	A, I	E
4	Relevant Experience	4.1	Previous experience of teaching or supporting students.	A, I	E
		4.2	Relevant postdoctoral experience.	A, I	D

5	Special Requirements	5.1	The ability to communicate through the medium of Welsh.	A, I	D
		5.2	Evidence of a commitment to continuous professional development.	A, I	E
		5.3	A publication record commensurate with a good level of research performance and stage of career.	A, I	E
6	Additional/ Amendments to Person Specification	6.1	Research and/or industrial experience in the following areas: Industrial Communications, Automation and PLC Systems, Mechatronic Systems, Embedded Systems, and Digital Signal Processing.	A, I	E
		6.2	Demonstrates depth and breadth of understanding of Control Engineering subject matters at conceptual & practice-based levels.	A, I	E
Date of Revision					

Key	Identification Method	A	Application Form
		I	Interview
		T	Test
		C	Copy of Certificates
		W/L	Workshop/Lecture
		P	Presentation
		G	Group Assessment
	Rank	E	Essential
		D	Desirable